**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

5 Mehefin 2024

Annwyl Huw

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ystyried yn ofalus dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (y Rheoliadau), yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr 2022, i ofyn i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau, er gwaethaf nifer o wallau yn y Rheoliadau. Byddwch yn gwybod bod y dull o ymdrin a fabwysiadwyd gan Llywodraeth Cymru, yn rhannol, o ganlyniad i'r ffaith bod pwerau yn *Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*, ar fin dod i ben.

Mewn gohebiaeth yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno offeryn statudol pwrpasol i gywiro'r gwallau.

Nid ydym yn sicr a gafodd offeryn diwygio ei wneud erioed. Rydym yn cydnabod, tua 18 mis ar ôl i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau, y gallai fod yn wir bod yr angen am offeryn o'r fath wedi cael ei ddisodli gan newidiadau eraill i'r drefn fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno offeryn statudol pwrpasol i gywiro'r gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, neu gadarnhad o pryd a sut y cafodd yr angen am offeryn cywiro ei ddisodli.

Yn yr ohebiaeth y cyfeirir ati uchod, ymrwymodd y Gweinidog ar y pryd hefyd i ddiweddaru'r Pwyllgor trwy lythyr ynghylch y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran nodi pŵer i alluogi'r Gweinidog i gyflawni ei hymrwymiad, a wnaed yn ystod y ddadl ar y Rheoliadau, i ddiwygio'r weithdrefn graffu

sy'n berthnasol i un o'r pwerau dirprwyedig yn y Rheoliadau o'r weithdrefn negyddol i'r weithdrefn gadarnhaol. Nid yw'n ymddangos ein bod wedi cael diweddariad o'r fath, a byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sefyllfa bresennol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 24 Mehefin 2024.

Yn gywir



Mike Hedges
Cadeirydd